



Fersiwn 3, diweddarwyd ar 6 Hydref 2021

Polisi Gorchuddion Wyneb

1. Cyflwyniad

- 1.1 I sicrhau bod Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn aros yn ddiogel a dymunol i bawb yn ystod pandemig Covid-19, datblygwyd y polisi gorchuddion wyneb hwn. Mae'r polisi gorchuddion wyneb yn nodi'r rheolau i bawb sy'n mynd i mewn i adeiladau'r brifysgol gan wisgo gorchudd wyneb tra byddant ar y safle. Byddwn yn parhau i adolygu'r polisi hwn wrth i ganllawiau ar Covid-19 newid a thystiolaeth ddod i'r amlwg am amrywiolyn Covid-19 newydd.
- 1.2 Oni bai eich bod wedi eich eithrio, mae'r Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i bobl wisgo gorchuddion wyneb:
 - ym mhob man a rennir, gan gynnwys manau addysgu;
 - lle nad yw'n bosibl cynnal pellter cymdeithasol neu;
 - lle mae'n ofynnol yn ôl asesiad risg;
 - dylid hefyd gwisgo gorchuddion wyneb yn yr awyr agored lle nad yw'n bosibl cynnal pellter cymdeithasol neu lle mae'n ofynnol yn ôl asesiad risg.

2. Polisi Gorchuddion Wyneb

- 2.1 Mae dull Prifysgol Metropolitan Caerdydd o reoli pandemig Covid-19 wedi canolbwyntio'n anad dim ar iechyd a lles pob aelod o'n cymuned. Mae hyn wedi ein helpu wrth inni ddatblygu prosesau i staff a myfyrwyr ddychwelyd i'r campws mewn ffordd sy'n gyson â'r ddeddfwriaeth cadw pellter cymdeithasol sy'n bodoli yng Nghymru, ac sy'n blaenoriaethu diogelwch. Tybir fel rhan o'n cynllunio o hyd y dylem fod yn cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr o leiaf.
- 2.2 Cefnogwyd pob dychweliad i'r campws gan asesiadau risg iechyd a diogelwch Covid-19, er mwyn inni fedru deall y ffordd orau o wneud manau'n ddiogel i staff a myfyrwyr yn ogystal ag unrhyw ymwelwyr eraill â'n safleoedd.
- 2.3 Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i bawb sy'n dod i mewn i'n gofod; bydd angen asesiad risg ar y rhai sydd ag eithriad cyfreithlon er mwyn



ystyried sut y gallwn alluogi mynediad diogel i fannau. Arddangosir arwyddion clir mewn manau lle hoffem i bobl wisgo gorchuddion wyneb.

- 2.4 Nid yw gorchuddion wyneb anfeddygol - masgiau ffabrig syml y gallwch eu prynu neu eu gwneud eich hunan - yn fathau arferol o gyfarpar diogelu personol. Caiff y rhan fwyaf o gyfarpar diogelu personol ei wisgo oherwydd ei fod yn amddiffyn y defnyddiwr rhag risg benodol, ond bwriad gorchuddion wyneb yw amddiffyn pobl eraill. Dengys tystiolaeth gynyddol y gall y mathau hyn o orchuddion wyneb leihau'r achosion o drosglwyddo'r feirws gan bobl heintiedig. Gan fod llawer o bobl nad ydynt efallai'n ymwybodol eu bod wedi'u heintio hyd yn oed, rydym yn cynnwys defnyddio gorchuddion wyneb yn ein proses asesu risg oherwydd gallant helpu i gynyddu diogelwch ein cymuned mewn ardaloedd lle byddai'n anodd amddiffyn pobl fel arall. Gall staff ddewis gwisgo amddiffyniad ychwanegol - fel amddiffynnydd wyneb - yn ogystal â gorchuddion wyneb.
- 2.5 Gobeithiwn y bydd staff a myfyrwyr yn deall pwysigrwydd ein hymddygiad ein hunain wrth gadw pob aelod o'n cymuned yn ddiogel. Hyd nes y bydd newid yn y gofyniad i gadw pellter cymdeithasol, bydd angen inni weithio gyda'n gilydd er ein diogelwch, a bydd gorchuddion wyneb yn chwarae rhan yn hyn. Mae'n hanfodol bod pobl yn parhau i gadw pellter cymdeithasol hyd yn oed wrth wisgo gorchuddion wyneb.
- 2.6 Rydym yn ymwybodol y bydd rhai pobl na allant wisgo gorchuddion wyneb am wahanol resymau. Ymysg rhai eithriadau y mae:
- bod gennych gyflwr iechyd meddwl neu gorfforol neu anabledd lle byddai gorchudd wyneb yn amhriodol oherwydd byddai'n achosi anhawster, poen neu drallod neu orbryder difrifol, neu oherwydd na allwch roi gorchudd arno a'i wisgo yn y modd priodol yn ddiogel ac yn gyson.
 - os ydych chi wedi dod â phlant ar y safle am unrhyw reswm, ni argymhellir bod plant o dan 3 oed yn gwisgo gorchuddion wyneb.
 - bod gennych angen rhesymol i fwyta neu yfed.
 - bod angen ichi gymryd meddyginiaeth.
 - bod angen ichi gyfathrebu â rhywun arall sy'n dibynnu ar ddarllen gwefusau (gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwneud hynny gan ddefnyddio'r rheolau cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr).
 - bod person perthnasol, fel swyddog heddlu, yn gofyn ichi dynnu'ch gorchudd wyneb.



- 2.7 Bydd angen i unrhyw staff, myfyrwyr neu ymwelwyr eraill â'n campysau sydd ag eithriad cyfreithlon gael asesiad risg er mwyn inni fedru gwneud addasiadau rhesymol i'w galluogi nhw i fynychu'n ddiogel. Dylai staff wneud hyn trwy eu rheolwyr, a dylai myfyrwyr gysylltu â'u Hysgolion.
- 2.8 Mae angen i staff sy'n addysgu neu sydd mewn cysylltiad rheolaidd â myfyrwyr deimlo'n ddiogel, a byddwn yn cyfathrebu â myfyrwyr ynglŷn â phwysigrwydd gwisgo gorchuddion wyneb a chadw pellter cymdeithasol tra byddan nhw ar y campws. Nid ydym yn gofyn i staff ddod yn orfodwyr y polisi hwn. Fodd bynnag, os yw staff yn teimlo'n anghyfyrdus ag ymddygiad eraill, fe'u cefnogir i ofyn i bobl adael os nad ydynt yn cydymffurfio â'r polisi hwn.
- 2.9 Bydd y Brifysgol yn darparu dau orchudd wyneb anfeddygol golchadwy i staff a myfyrwyr ac yn darparu arweiniad ar sut i ddefnyddio'r rhain; gall ymwelwyr â'n hadeiladau nad oes ganddynt orchudd wyneb eisoes gasglu un o'r dderbynfau. Os byddwch chi'n colli'r rhain neu os oes angen mwy arnoch, gallwch brynu rhagor o fasgiau gan y Brifysgol, eu prynu o rywle arall, neu wneud un eich hun.

Adolygir y polisi hwn wrth i ganllawiau ar Covid-19 newid a thystiolaeth ddod i'r amlwg am yr amrywiolyn Covid-19 newydd.

Diweddarwyd 8 Ionawr 2021 *

Roedd fersiwn flaenorol y polisi o 25 Awst 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i bobl sy'n ymweld ag adeiladau'r Brifysgol wisgo gorchuddion wyneb anfeddygol mewn lleoedd lle nad oedd yn bosibl i bobl gadw pellter o 2 fetr, megis coridorau, lleoedd cymunedol, lleoedd addysgu llai. ac ati. Mewn lleoedd lle roedd yn bosibl lleihau nifer y bobl mewn gofod neu liniaru'r risg trwy symud dodrefn (megis mewn lleoedd addysgu), nid oedd angen gorchuddion wyneb.

Diweddarwyd 12 Chwefror 2021**

**Roedd y fersiwn blaenorol o'r polisi yn caniatáu i'r rhai na allent wisgo gorchuddion wyneb wneud hynny heb unrhyw asesiad risg. Gwnaed y newid hwn ar ôl cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

Diweddarwyd 2 Mehefin 2021***

Ychwanegwyd rhestr o feysydd lle nad oes angen gorchuddion wyneb.



Diweddarwyd 1 Hydref 2021****

Alinio â fframwaith rheoli heintiau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch sy'n argymhell yn gryf y defnydd o orchuddion wyneb yn yr amgylchedd addysgu a dysgu lle na ellir cadw pellter corfforol, gyda chefnogaeth Asesiad Risg Covid-19.